

## Digon i ti fy ngras i

Gwelsom yr wythnos diwethaf bod yr Arglwydd Iesu Grist yn addo mai “Digon i ti fy ngras i.”  
Y tro hwn mae'r **Parch Ian Sims**, Llywydd y Gymdeithasfa yn y De yn ein tywys i ystyried ail ran yr adnod.

### “Mewn gwendid y daw fy nerth i’w anterth...”

Yn ein gwendid perffeithir nerth Crist ynom.

Yma, cawn wrthgyferbyniad arall am natur Teyrnas Dduw. Digionedd gras, gwendid a nerth. Credir gan y rhan fwyaf o ysgolheigion Beiblaidd, mai rhyw fath o gystudd corfforol yw'r “gwendid” y sonnir amdano gan Paul, y “ddraenen yn y cnawd.”

Mae gan bob un ohonom “ddraenen” yn ôl pob tebyg, ac ni allwn ddianc rhag y gwendidau hyn. Yn ogystal ag afiechydon corfforol, rhannwn benbleth ysbrydol mawr. Pobl ddynol ydym, ac mae angen mwy na chryfder dynol arnom i fyw'r bywyd Cristnogol. Mae angen nerth yr Arglwydd Dduw arnom hefyd.

Efallai mai'r frwydr fwyaf a wynebwn, yw cyfaddef pa mor wan ydym ni. Nid yw oes o siomedigaethau, hyd yn oed, yn ddigon i ddarbwylllo rhai ohonom o wirionedd hyn. Ceisiwn o hyd, a methu, gan wrthod ildio ein hannibyniaeth.


Cafodd Paul, hyd yn oed, drafferth cyfaddef na allai sefyll ar ei ben ei hun. Ymddiriedai'n llwyr yn Iesu Grist am ei iachawdwriaeth, ond bu'n hirach cyn gallai ef, fel, cyn Pharisead, ddeall mai peth da oedd ei wendid. Fe orfododd ei wendid Paul – fel y mae'n ein gorfodi ninnau – i ddibynnu'n llwyr ar Dduw. Mae'n gas gennym fod yn ddibynnuol ar unrhyw un neu unrhyw beth arall, heddiw. Ystyriwn hyn yn wendid, er

byddai rhai'n dadlau'n frwd mai'r gwrthwyneb sy'n wir. Mae bod yn ddibynnuol ar unrhyw beth arall yn rhywbeth i blant yn unig.

Ond, onid dyna ydym ni – plant Duw, ein Tad nefol. Mae Duw am inni droi ato pan fyddwn mewn angen, ac fel ein Tad, bydd Ef yn cwrdd â'n holl anghenion. Dyna beth yw ystyr cariad.

gyffuriau neu alcohol, sy'n arwain efallai, at drais yn y cartref, heb weld, na deall, eu bod wedi'u creu gan Dduw, ac Ef yn unig all fodloni eu dyheadau dyfnaf.

Dyma'r newyddion da. Gall pawb osgoi bywyd dibwrpas a darganfod ei hystyr, drwy droi at ffynhonnell bywyd sef Duw.



*Gras yw gogoniant wedi dechrau. Gogoniant yw gras wedi ei berffeithio.*

Jonathan Edwards

Ein gwendidau yw'r union beth sy'n ein harwain ato yn y lle cyntaf. Pan fyddwn yn eu gwadu, gwyrwn i ryw gyfeiriad arall. Rydym fel plentyn bach sy'n mynnu gwneud rhyw orchwyl ar ein pen ein hun, er bod y gorchwyl hwnnw ymhell y tu hwnt i'w gallu.

Ymffrostiodd Paul am ei wendid, oherwydd trwy'r gwendid hwnnw, daeth Duw, a'i rym syfrdanol i drigo ynddo. Daeth Paul yn ddysgl wag, a bu i Crist fyw trwyddo, gan gyflawni pethau rhyfeddol. Mae'r fraint fawr hon ar gael i bob un ohonom. Dim ond

Ein gwendid sy'n ein gorfodi i ddibynnu ar Dduw.

Ni all rhai pobl ddeall nad oes dim byd ar y ddaear a all gwrdd â'i hanghenion ac eithrio Duw ei hun. Mae rhai'n chwennych arian ac enwogrwydd, ac eraill grym ac eiddo, gan gollu'i ffordd yn llwyr. Maent yn meddwl bod y cyfan ganddynt, cyn sylweddoli yn o fuan, mai methdalwyr ydynt, yn ysbrydol ac nad oes dim ganddynt mewn gwirionedd. Maent yn troi wedyn at

pan fyddwn yn gwagio'r hunan y cawn ein llenwi â rhywbeth gwell. Pan fyddwn yn wan, gallwn dyfu'n gryf.

Gweddiwn am nerth yn aml, ond y gwirionedd yw, bod yr Arglwydd am i ni aros yn ein gwendid, a dibynnu'n llwyr arno. Efallai y credwn, bydd ein “drain” corfforol yn ein rhwystro rhag ei wasanaethu Ef. Y gwrthwyneb sy'n wir. Maent yn ein perffeithio fel bod modd datgelu grym dwyfol Crist trwy ein gwendid dynol.